

Cynorthwydd Prosiectau a Chyfathrebu pecyn swydd

*Rydym yn recriwtio Cynorthwydd
Prosiectau a Chyfathrebu am
ddeuddydd yr wythnos i ymuno â'n
tîm sy'n fach ond yn ddeinamig*



Tŷ Cerdd | Music Wales

Music in Wales. Music of Wales.

Cerddoriaeth yng Nghymru. Cerddoriaeth o Gymru.



Pwy ydyn ni?

Mae lle Tŷ Cerdd ym mywyd cerddorol Cymru yn unigryw. Rydym yn gweithio gyda chrewyr cerddoriaeth ym mhob cam o'u gyrfa drwy ddatblygu artistiaid, yn gweithio gyda chymunedau sy'n ymwneud â cherddoriaeth ledled y genedl, yn ogystal â gweithio gyda amrywiaeth o sefydliadau, mudiadau a rhwydweithiau cerdd yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Yn ein pencadlys yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, mae gennym [stiwedio recordio](#), [menter gyhoeddi](#) a dau label recordio, sef: [Recordiau Tŷ Cerdd](#), a [Sionci](#), ein hargraffnod newydd sydd o dan arweiniad artistiaid. Ac rydym yn dosbarthu arian y Loteri ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru i sefydliadau a mudiadau ledled Cymru.

Cynorthwydd Prosiectau a Chyfathrebu

Contract ac oriau

Contract blwyddyn, 15 awr yr wythnos yn agored i oriau hyblyg
(*rhaid cynnwys bore dydd Mawrth*)

Lleoliad

Caerdydd

(*ond gall deilydd y swydd weithio o bell unrhyw le yng Nghymru*)

Cyflog

£25,878 pro rata

Pensiwn

[ACRP](#) (Arts Council Retirement Plan)
wedi'i weinyddu gan Hymans Robertson

Yn adrodd i

Pennaeth Cynnwys Digidol

Tîm

Gweithio'n agos â gweddill y tîm
(yn enwedig Pennaeth Cynnwys Digidol)

Dyddiad cau

12:00 canol dydd,
dydd Gwener 27 Chwefror

Cyfweliadau

Dydd Mawrth 10fed o fis Mawrth
(Caerdydd)



Y rôl o fewn Tŷ Cerdd

Bydd y Cynorthwyydd Prosiectau a Chyfathrebu yn gweithio ochr yn ochr â'n Pennaeth Cynnwys Digidol, gan gydlyn â'r tîm cyfan i'n helpu i adrodd ein stori ni a stori'r cerddorion a'r cymunedau rydyn ni'n gweithio gyda nhw. Bydd deiliad y swydd yn helpu i lunio negeseuon a chynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, ynghyd ag e-byst uniongyrchol a chopi i'r we. Bydd cyfle hefyd i weithio ar brosiectau, fel llwybrau datblygu artistiaid a gweithdai yn ein Stiwdio.

Rydym yn sefydliad hybrid, sef bod staff yn gweithio o'r swyddfa ac o bell ill dau, felly byddai'r rôl hon yn addas i rywun sy'n gyfforddus yn gweithio'n annibynnol yn ogystal â gyda thîm.

Beth gall y rôl ei chynnig i chi?

Bydd y Cynorthwyydd Prosiectau a Chyfathrebu yn Tŷ Cerdd yn helpu i lunio'r negeseuon am ein gweithgarwch, a ninnau'n sefydliad sy'n cael ei ariannu'n rheolaidd – yn ogystal â chwarae rhan weithredol yn sector ehangach cerddoriaeth Cymru. Bydd y rôl yn eich rhoi mewn cysylltiad ag artistiaid a phartneriaid ar draws y sector wrth i ni weithio gyda nhw i gyflawni ein rhaglen waith helaeth. Mae'n gyfnod cyffrous i ymuno â'r sefydliad a helpu i greu ein negeseuon i gymunedau a phartneriaid.

Yn Tŷ Cerdd, rydym wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad ein staff, ac yn awyddus i gynnig hyfforddiant a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd, ehangu gorwelion a rhannu dysgu gydag eraill ac oddi wrthynt.

Beth yw prif gyfrifoldebau'r rôl?

- Cydweithio â Phennaeth Cynnwys Digidol i fod yn rhan o'r gwaith o gyflawni strategaeth gyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol Tŷ Cerdd
- Creu a chasglu cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
- Llunio negeseuon ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a'u postio ar draws y llwyfannau
- Gweithio gyda'r tîm ar flaenoriaethau negeseuon ac amserlennu
- Bod yn rhan o gynorthwyo prosiectau ar gyfer gwaith ar draws rhaglen Tŷ Cerdd

Amodau arbennig ar gyfer y rôl

- Gallu mynychu sesiynau a gweithgareddau tîm yng Nghaerdydd (ym mhencadlys Tŷ Cerdd yng Nghanolfan y Mileniwm)
- Gallu gweithio ar foreau Mawrth
- Gallu mynychu digwyddiadau achlysurol gyda'r nos ac ar y penwythnosau (rydym yn gweithredu system TOIL)
- Gallu siarad ac ysgrifennu'n rhugl yn y Gymraeg

Pwy ydych chi?

- Rydych chi'n gyfathrebwr medrus, yn gyfarwydd â llwyfannau a strategaeth cyfryngau cymdeithasol, ac mae gennych brofiad o lunio negeseuon a gweithio'n ymatebol.
- Rydych chi'n dallt y dalltings am y byd cerddoriaeth yng Nghymru.
- Efallai eich bod chi ar ddechrau eich gyrfa...
- Rydych chi wrth natur yn gallu gweithio mewn tîm gan fod ag agwedd cadarnhaol ac eiddgar i wneud y gwaith, rydych yn awyddus i ddatrys problemau, yn ddiplomatig ac yn sensitif i weithio gyda phobl a chymunedau sydd ag amrywiaeth o ofynion, anghenion a blaenoriaethau.
- Mae gennych lygad craff am fanylion ynghyd â phrofiad a sgiliau clir o brosesau rheoli prosiectau i sicrhau eich bod yn gallu blaenoriaethu'n briodol, yn gallu cadw golwg ar linyddau gwaith sy'n digwydd ar yr un pryd ac yn gallu cyfathrebu'n gyson ac yn effeithiol ag aelodau'r tîm.
- Mae eich gwerthoedd yn cyd-fynd â [chonglfeini](#) Tŷ Cerdd ei hun, ac mae gennych ymrwymiad dwfn i fynediad a chynhwysiant.
- Rydych yn fodlon bod yn hyblyg a blaenoriaethu pan fydd prosiectau'n cyrraedd eu hanterth, ac i ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl gofyn rhesymol.



Pa sgiliau a phrofiad sydd gennych i'w cynnig?

Hanfodol

- Sgiliau a phrofiad yn y maes cyfathrebu a'r cyfryngau cymdeithasol
- Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r sîn gerddoriaeth yng Nghymru, ac o'r problemau sy'n wynebu cerddorion
- Gallu siarad ac ysgrifennu yn y Gymraeg
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol
- Ymwybyddiaeth/sgiliau gweledol a dylunio cryf
- Ymwybyddiaeth o ymarfer cynhwysol a hygyrch
- Dealltwriaeth o waith Tŷ Cerdd
- Gwerthfawrogi pwysigrwydd yr iaith Gymraeg i Tŷ Cerdd a'n cymunedau

Defnyddiol

- Gwybodaeth o'r isadeiledd a'r byd cerdd yng Nghymru
- Profiad uniongyrchol o greu cerddoriaeth neu o gydweithio â cherddorion
- Gwybodaeth gref o'r byd cerdd yng Nghymru a chysylltiadau ynddo
- Sgiliau/profiad â meddalwedd Adobe megis Photoshop, Illustrator ac InDesign (neu debyg)
- Sgiliau sylfaenol golygu fideo

Os ydych chi'n teimlo mai dim ond rhai o'r sgiliau a'r profiad gofynnol sydd gennych chi ond eich bod yn bodloni manyleb y person, byddem yn dal yn eich annog i wneud cais; rydym yn agored iawn i barhau i hyfforddi a datblygu unigolion sy'n llawn hunangymhelliant iddynt ennill y sgiliau a'r wybodaeth newydd sy'n berthnasol i'r rôl.

Yn unol â'n hymrwymadau i'n [Conglfeini](#), rydym yn awyddus i dderbyn ceisiadau gan unigolion sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu sydd wedi eu hesgeuluso neu eu hallgáu o'r gymuned gelfyddydol. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bobl anabl a niwroamrywiol, pobl sy'n Ddu, Asiaidd ac o'r mwyafrif byd-eang, pobl LGBTQIA+, a phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.

Fel [Cyflogwr Ymrwymedig i Hyderus o ran Anabledd](#), rydym yn croesawu trafodaethau ynghylch sut y gallwn eich cefnogi drwy'r broses recriwtio. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith cynhwysol, hygyrch a chefnogol i weithwyr.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech drafod y rôl yn gyfrinachol, mae pob croeso i chi yrru neges i laila.khan@tycerdd.org yn manylu ar eich cwestiynau neu i drefnu sgwrs.

GWNEUD CAIS

Gwneud cais Lanlwythwch eich CV
(gan gynnwys manylion dau eirda) a llythyr eglurhaol
YMA yn manylu ar sut byddwch yn cyflawni gofynion y rôl

DYDDIAD CAU

Dydd Gwener 27 Chwefror, 12:00 ganol dydd

CYFWELIADAU

Dydd Mawrth, 10fed o fis Mawrth,
yn swyddfa Tŷ Cerdd, Canolfan y Mileniwm, Bae Caerdydd

